



Papur Gwybodaeth

Ym mis Ebrill 2013 cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gap ar gyfanswm y budd-daliadau y gall pobl o oedran gwaith ei dderbyn. Gosodwyd y cap ar £26,000 y flwyddyn neu £500 yr wythnos ar gyfer cwpl (gyda neu heb blant) ac aelwydydd un rhiant, wedi'i hafalu ar 67% neu £350 yr wythnos (ar ôl talgrynnu) ar gyfer aelwydydd oedolyn sengl heb blant.

Fel rhan o Ddeddf Diwygio Lles a Gwaith 2016 Llywodraeth y Deyrnas Unedig, bydd cap (Cap Budd-daliadau) ar gyfanswm budd-daliadau aelwydydd fel na fydd gan aelwydydd heb waith mwyach hawl i dderbyn mwy na £20,000 mewn budd-daliadau (£13,400 ar gyfer oedolion sengl heb blant) a £23,000 (£15,410 ar gyfer oedolion sengl heb blant) yn Llundain Fwyaf. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys ystod enfawr o newidiadau polisi eraill, yn cynnwys rhewi nifer o fudd-daliadau ar eu lefelau 2015/16 hyd at 2019/20.

Dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig fod y cap haenog is yn cryfhau cymhellion i weithio, yn sicrhau tegwch ar gyfer trethdalwyr ac yn sicrhau bod rhwyd ddiogelwch resymol o gefnogaeth ar gyfer aelodaf mwyaf bregus cymdeithas. Daw'r cap is i rym o 7 Tachwedd 2016; budd-dal tai fydd y budd-dal cyntaf i gael ei ostwng os yw'r hawliwr yn uwch na'r trothwy cymwys.

Y Polisi Cap Budd-daliadau

Incwm Budd-daliadau

Rhoddir y dilydol i ystyriaeth wrth gymhwyso'r cap i incwm budd-daliadau:

- Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Gofalwr
- Budd-dal Plant
- Credyd Treth Plant
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth heblaw lle dyfarnwyd yr elfen cymorth
- Lwfans Gwarcheidwad
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Anallu
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisiwr Gwaith
- Lwfans Mamolaeth
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Credyd Cynhwysol



- Lwfans Rhiant sy'n Weddw
- Budd-dal Gweddw

Y budd-daliadau na roddir ystyriaeth iddynt yw Credydau Treth Gwaith (yn cynnwys rhai gyda 'dim hawl'), Pensiwn Gwladol a Chredyd Pensiwn, a dywedir mai nod y polisi yw rhoi cymhelliant gwaith i bobl o oedran gwaith. Hefyd yn cael eu heithrio mae taliadau unigol, budd-daliadau heb fod mewn arian a rhai nas telir gan y llywodraeth, megis Tâl Salwch Statudol

Eithriadau

Caiff yr hawlwr a'r aelwydydd dilynol eu heithrio o'r cap:

- Aelwydydd sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (DLA), Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) a Budd-daliadau Anafiadau Diwydiannol (a thaliadau cyfwerth a wneir fel rhan o bensiwn anabledd rhyfel neu Gynllun Iawndal Lluoedd Arfog)
- Aelwydydd yn cynnwys hawliwr sy'n derbyn elfen cymorth y Lwfans Cyflogaeth a Cymorth neu elfen gweithgaredd Gallu Cyfyngedig ar gyfer Gwaith y Credyd Cynhwysol
- Aelwydydd yn cynnwys Gweddwon Rhyfel yn derbyn pensiwn a gaiff ei dalu dan rannau perthnasol y Cynllun Pensiwn Rhyfel, Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog neu gynlluniau tebyg
- Aelwydydd sy'n derbyn Lwfans Gwarcheidwad ac aelwydydd sy'n derbyn (neu sydd â hawl sylfaenol) i Lwfans Gofalwr

Wrth ochr hyn, mae cyfnod gras o 39 wythnos (9 mis dan Credyd Cynhwysol) yn bodoli i roi cyfnod sefydlog i ddiogelu rhai gyda hanes gwaith cyson y daeth eu cyflogaeth i ben, neu'r rhai y gorfodwyd iddynt adael gwaith oherwydd newid yn eu hamgylchiadau. Yn ystod y cyfnod yma, gall hawlwr addasu i'w sefyllfa ac edrych am gyflogaeth arall.

Diystyriadau

Yn ogystal â'r eithriadau, caiff rhai taliadau a wneir drwy'r system budd-daliadau eu diystyru ar gyfer dibenion y cap budd-daliadau.

Ni chaiff costau tai eu talu yng nghyswllt 'llety â chymorth eithredig' a 'llety penodol' (e.e. rhai llochesi, hostelau, eiddo eithredig ac eiddo a reolir) eu cynnwys ar hyn o bryd wrth gyfrif y cap budd-daliadau.



Fodd bynnag, nid yw preswylwyr yn y mathau hyn o lety yn cael eu heithrio'n awtomatig o'r cap budd-daliadau, a dim ond yn yr amgylchiadau a amlinellir uchod y byddai eithriadau yn weithredol.

Lle nad yw preswlydd wedi ei eithrio o'r cap, a bod diystyriad yn ei le, caiff cyfanswm y budd-dal y gall y cap fod yn berthnasol iddo ei gyfrif drwy adio cyfanswm taliadau budd-dal y sawl sy'n hawlio, ac eithrio Budd-dal Tai.

Hysbysiad

Daw'r polisi i rym ar 7 Tachwedd 2016 a bydd llawer o gymdeithasau tai eisoes wedi derbyn hysbysiad gan awdurdodau lleol o'r rhai fydd yn derbyn toriad mewn budd-dal tai. Caiff llythyrau pellach gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn hysbysu cleientiaid y gall y newidiadau budd-dal tai effeithio arnynt eu postio o 19 Medi 2016 dros gyfnod o 10 diwrnod. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi argymhell nad yw adrannau budd-dal tai yn effeithio ar hawlwr tan ar ôl 30 Medi 2016.

Effaith

Niferoedd

Mae'r newid mewn amgylchiadau hawlwr yn ei gwneud yn anodd gwneud amcangyfrif o'r rhai yr effeithir arnynt. Awgrymodd yr amcangyfrifon gwreiddiol y byddai'r cap is yn cael effaith ar o leiaf 7,000 o hawlwr - cynnydd o ddeg gwaith trosodd ar y lefelau cap blaenorol - yng Nghymru, ond mae amcangyfrifon mwy diweddar yr Adran Gwaith a Phensiynau yn awgrymu yr effeithir ar 4,800 o aelwydydd. Mae aelodau CHC a dderbyniodd hysbysiad cynnar gan adrannau budd-dal tai wedi nodi cynnydd o ddeg gwaith trosodd, gydag un aelod yn sôn am ffigurau'n cynyddu o 7 teulu i 70.

Plant a Gofal Plant

Yn seiliedig ar ffigurau'r Adran Gwaith a Phensiynau, mae CHC yn amcangyfrif y bydd mwy na 18,000 o blant yn rhan o aelwyd y mae'r cap yn effeithio arnynt. Gyda 79% o'r rhai yr effeithir arnynt yn hawlwr sengl (66% yn fenywod sengl, 13% yn ddynion sengl), rhagwelwn fod y cap yn debygol o gynyddu'r galw am ofal plant digonol i ganiatáu i lawer weithio.

O fis Medi 2017 ymlaen, caiff hawl i ofal plant am ddim yn Lloegr ei ddyblu i 30 awr yr wythnos ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair blwydd oed. Ymrwymodd Llafur Cymru i fynd tu hwnt i'r polisi hwn yng Nghymru yn eu hymgyrch ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016, gyda rhieni mewn gwaith â hawl i 48 wythnos o ofal (o gymharu â 38 yn Lloegr). Mae'n debyg y bydd mwy o fanylion ar gyflawni'r ymrwymiad hwn yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru pan gaiff ei chyhoeddi.



Budd-dal Tai a Rhent

Mae'r golled gyfartalog mewn budd-dal (budd-dal tai) yn £6 yr wythnos, gan adael llawer o hawl wyr gyda diffyg sylweddol yn eu rhent. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn amcangyfrif y bydd Cymru'n cyfrif am 5% o gyfanswm hawl wyr cap budd-daliadau ac felly gellid amcangyfrif y caiff rhwng £7 a £25 miliwn o fudd-dal tai ei golli bob blwyddyn. Bydd llawer o hawl wyr yn dal i fod yn derbyn hawl llawn i fudd-dal tai ac felly'n cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord gan yr awdurdod lleol; bydd y cap budd-daliadau yn golygu y bydd angen i landlordiaid fuddsoddi ymhellach i gynnwys yr un lefel o gasglu rhent.

Credyd Cynhwysol

Mae datblygu Credyd Cynhwysol mewn camau yng Nghymru yn golygu ei bod yn annhebyg y bydd y cap budd-daliadau yn effeitho ar y rhai sy'n hawlio Credyd Cynhwysol o 7 Tachwedd 2016. Fodd bynnag, wrth i'r meini prawf cymhwyster ledaenu a nifer yr hawl wyr Credyd Cynhwysol gynyddu, bydd y cap budd-daliadau yn effeitho ar deuluoedd gyda Chredyd Cynhwysol. Ni fydd landlordiaid yn derbyn hysbysiad am y cap ar gyfer y tenantiaid hyn a bydd angen iddynt ddibynnu ar gysylltu ar denantiaid cyn gynted ag sydd modd i ddynodi anghenion cefnogaeth.

Angen Tai a Datblygiad

Os yw'r cap budd-daliadau yn parhau ar y lefel o £20,000 y flwyddyn neu fod rhanbartholi pellach, bydd angen i unrhyw gynlluniau datblygu yn y dyfodol asesu'r effaith a gaiff hyn ar incwm rhent a gallu teuluoedd i gynnwys rhent contract. Gallai'r cap budd-daliadau olygu y bydd mwy o bobl yn symud wrth i rai edrych am ardaloedd gyda chyfleoedd cyflogaeth ac eraill edrych am leoliadau rhent mwy fforddiadwy. Gallai ardaloedd o amddifadedd uchel, teuluoedd heb waith a diffyg cyfleoedd swyddi weld gostyngiad pellach gyda datblygiad marwaidd a lefelau rhent sydd wedi eu cyfyngu i'r cap.

Taliad Tai yn ôl Disgresiwn (DHP)

Gwnaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig £870m yn ychwanegol ar gael mewn Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, ond ni chaiff dyraniadau awdurdodau lleol a'r swm a briodolwyd i'r cap budd-daliadau eu cyhoeddi hyd fis Rhagfyr. Bydd pob awdurdod lleol yn dilyn y Canllawiau ar Taliadau Tai ar Ddisgresiwn neu'r Cynllun Taliadau Tai ar Ddisgresiwn Cymru-gyfan, neu'r ddau, i gael arweiniad. Mae'r naill a'r llall yn adnoddau defnyddiol yn esbonio sut a pham y dyrennir Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Methodd awdurdodau lleol wario'r dyraniad Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn llawn yn 2015/16 ac mae pryderon, pan gadarnheir y gyllideb ym mis Rhagfyr, na fydd ar y lefel sydd ei angen i ddelio gyda'r polisi.



Caiff gwybodaeth bellach ac adnoddau eu hychwanegu i rwydwaith Yammer CHC a bydd Rhwydwaith Cyngor CHC yn trafod y budd-daliadau ac arfer da cynnar sy'n mynd rhagddo i liniaru ei effaith yn y cyfarfod nesaf ym mis Hydref. Os ydych angen mwy o wybodaeth, cysylltwch os gwelwch yn dda â: Paul Langley. Twitter: @paul_chc E-bost: paul-langley@chcymru.org.uk